

Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru	
Dyddiad y Cyfarfod:	Dydd Iau 6 Medi 2018
Amser y Cyfarfod:	9:00 – 16:00
Lleoliad y Cyfarfod:	Ystafelloedd Meirionydd a Phenllyn, Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Cyffordd Llandudno
Cadeirydd	Andy Richardson

MYNYCHWYR:

Llywodraeth Cymru: Keith Smyton (KS) Dave Morris (DM) David Lloyd-Thomas (DLT) Andrew Martin (AM) Suzanne Pomeroy (SP) Enfys Jones (EJ) Nicholas Shilton (NS) Dilys Parker (DP) Lara Israel (LI) Cyflwynwyr/Siaradwyr Gwadd; Mark Grant (MG) – Clwstwr Diodydd Linda Grant (LG) – BIC Innovation Fintan O’Leary (FO) – Clwstwr Diodydd Ro Roberts (RR)- Cyfathrebu	Sefydliadau: Andy Richardson (AR) – Cadeirydd Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru Alison Lea-Wilson (AW) – Aelod o'r Bwrdd Justine Fosh (JF) – Aelod o'r Bwrdd (Trwy Telegynhadledd) Huw Thomas (HT) – Aelod o'r Bwrdd David Lloyd (DL) – Dirprwy Gadeirydd Norma Barry (NB) – Aelod o'r Bwrdd James Wilson (JW) – Aelod o'r Bwrdd Katie Palmer (KP) – Aelod o'r Bwrdd Marcus Sherreard (MS) – Aelod o'r Bwrdd
Ymddiheuriadau: Annitta Engel – Aelod o'r Bwrdd	

Rhif	Eitemau ar yr Agenda
1.	Croeso a Chyflwyniadau Croesawodd AR aelodau'r bwrdd i'r cyfarfod gan nodi ymddiheuriadau. Gwnaed cyflwyniadau o gwmpas y bwrdd a chroesawyd Ro Roberts, arbenigwr cyfathrebu.
2.	Cofnodion a Champau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol ar 7 Mehefin 2018 Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod (18) M14 Cadarnhaodd aelodau'r bwrdd gywirdeb y cofnodion blaenorol. Hysbysodd NB y bwrdd y gallai fod ganddi wrthdaro o ran buddiannau am eu bod yn ymwneud a chymdeithas Bellyfull White Cider and Perry Society.

Adolygodd y bwrdd y Log Gweithredu â sylw arbennig ar gamau sydd heb eu cymryd, a chod coch. Nododd a chytunodd y bwrdd ar safle wedi'i ddiweddarau ynghylch y camau sydd heb eu cymryd a gofynnwyd bod y Log Gweithredu yn cael ei ddiweddarau yn unol â hynny.

Cam gweithredu: LI i ddiwygio'r Log Gweithredu er mwyn cofnodi'r camau sydd wedi'u cwblhau.

Cafodd trafodaethau ehangach eu cynnal ynghylch materion presennol sy'n effeithio ar y diwydiant bwyd. Cododd **JW** bryderon ynghylch Alinio'r Llywodraeth a'r Diwydiant yn nhermau'r Strategaeth Bwyd Môr ac effaith Brexit

Adroddodd DLT ei fod wedi trafod â'r tîm ystadegau a yw'r cynnydd mewn allforion o Gymru yn effaith arian cyfred oherwydd cyfradd gyfnewid Sterling / Ewro / Doler wannach neu am fod twf gwirioneddol. Nid oedd y tîm ystadegau yn gallu modelu'r rhyngweithio arian cyfred gan fod y rhain yn newid yn ddyddiol ac nid oes data ar gael i'w cysylltu at bob trafodiad masnach unigol. Fodd bynnag, dangosodd mesur procsi sy'n edrych ar gyfaint allforion bod twf yn y cyfaint dros yr un cyfnod sy'n cefnogi'r casgliad bod allforion wedi cynyddu mewn cyfanswm yn ogystal â mewn gwerth Sterling.

Tynnodd **KP** sylw at y ffaith nad yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ymateb ffurfiol i'r Papur Brexit. Roedd KP yn pryderu bod angen diweddarau'r gyfundrefn reoleiddio er mwyn rheoli risgiau ôl Brexit ynghylch methiant gweithredadwyedd a safonau is.

Nododd **DLT** nad oedd Adran Bwyd Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i ymateb yn ffurfiol i ymgynghoriad arall gan Lywodraeth Cymru oherwydd ei fod yn rhan o'r un llywodraeth. Fodd bynnag mae llawer o gydweithio agos yn y cefndir yn digwydd rhwng yr Adran Bwyd, yr Adran Iechyd Cyhoeddus ac Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru.

Goblygiadau Brexit yn ôl yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Cafodd trafodaethau eu cynnal ynghylch effaith diogelwch bwyd o ganlyniad i ddiffyg sgiliau a thoriadau oherwydd Brexit. Nodwyd petai lefel y cymwysterau yn lleihau er mwyn cynyddu cyflogadwyedd byddai hyn yn cael effaith bendant ar Ddiogelwch Bwyd a gallai arwain at gyfaddawdu lefelau Diogelwch Bwyd.

Blas Cymru/Taste Wales

Bydd digwyddiad Blas Cymru/Taste Wales yn cael ei gynnal ar 19 – 20 Mawrth yng Ngwesty Hamdden y Celtic Manor. Mae angen mwy o

	gyhoeddusrwydd ar Blas Cymru a thrafodwyd y cynlluniau ar gyfer y digwyddiad. Cytunwyd y byddai'r digwyddiad yn eitem ffurfiol ar yr agenda yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd ym mis Rhagfyr. Bydd gan bob aelod o'r Bwrdd rôl i'w chwarae yn nigwyddiad Blas Cymru. Digwyddiad Tuck In Trafodwyd llwyddiant y digwyddiad Tuck In. Mae llawer o weithdai wedi'u cynnal ers y digwyddiad yng Ngogledd Cymru. Cytunwyd y byddai'r digwyddiad yn cael ei ailadrodd yn Ne Cymru Hunaniaeth Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru Nodwyd bod angen cynllun ar gyfer sut i ymgysylltu â busnesau gan ddefnyddio hunaniaeth Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru yn hytrach na chael ei chyfeirio ati fel rhan o'r Llywodraeth. Dylid ystyried y mecanweithiau llywodraethu priodol.
3.	Dangosfwrdd Cyflawni Tynnodd DM sylw'r Bwrdd at bolisi ynglŷn â Lladd-dai a'u hysbysu bod cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru yn ystyried y potensial am grant newydd, ar gyfer gosod camerâu cylch cyfyng mewn lladd-dai i ddiogelu llesiant anifeiliaid. <i>Sylwadau gan y bwrdd ar y Dangosfwrdd:</i> JW: nid yw cyflwyniad y dangosfwrdd cyflawni yn glir iawn a gall fod yn ddryslyd iawn. Awgrymodd JW newid y gosodiadau drafft. Llywodraeth Cymru: mae angen gosod codau lliw a symleiddio'r materion. NB: Mae angen bod y dangosfwrdd yn ymwneud yn unig â'r hyn y dylai'r bwrdd fod yn gyfrifol amdano a'r hyn y mae'r bwrdd yn dewis ei wneud. Nid oes angen gwybod beth mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gwneud. Dylai byrddau sector fod yn rhyngweithio gyda Llywodraeth Cymru a Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru. Mae angen gwneud penderfyniad ynghylch yr hyn y dylid ymgynghori â'r bwrdd amdano. Mae angen i Lywodraeth Cymru gael y cydbwysedd cywir o ran ymgynghori, gyda digon i hysbysu'r bwrdd a'i gadw'n ymwybodol o ddatblygiadau.
4.	Cynllun Gweithredu 2 Adroddodd y Cadeirydd ynghylch cwrdd ag Aled Jones, Llywydd NFU Cymru yn ei sylwadau rhagarweiniol. Tynnwyd sylw at lawer o bethau sy'n

gyffredin yn nhermau datblygu diwydiannau sylfaenol ac eilaidd mewn ffyrdd a oedd yn cryfhau cadwyni cyflenwi a gweithio gyda gwerthoedd brand cyffredin, gyda chynaliadwyedd a budd y cyhoedd yn ehangach yn themâu a chanlyniadau craidd. Crynhodd DLT y materion a chwestiynau allweddol ym mhapur y Bwrdd. Roedd gwaith ymgynghori eang dros yr haf, byddai'n cael ei orffen ym mis Medi, wedi nodi tair thema eang sy'n dod i'r amlwg: • 'Tyfu ein busnesau' – dulliau hirdymor i ddatblygu busnesau a chadwyni cyflenwi mwy cadarn a mwy o faint gyda chysylltiadau gwell â chynhyrchu sylfaenol, cynhyrchiant a llwybrau i'r farchnad sy'n well, a gwneud hyn i gyd mewn modd cynaliadwy. • 'Hyrwyddo Cymru fel Gwlad Bwyd' - codi proffil y sector, datblygu a gweithio yn unol â set gadarn o werthoedd brand sydd â phwyntiau gwerthu unigryw, gyda safonau cynhyrchu ac olrhain trwy'r gadwyn gyflenwi sy'n hanfodol, a chysylltiadau â thwristiaeth. • 'O fudd i'n pobl a chymdeithas' – wrth ddefnyddio grantiau a mathau eraill o gefnogaeth fel ysgogwyr ar gyfer newid fel bod y sector yn cyflawni'r nodau llesiant ehangach. Mae'r themâu wedi datblygu syniadau cychwynnol a gyflwynwyd yng ngweithdy'r Bwrdd ym mis Mehefin ymhellach wrth eu lledaenu a'u dyfnhau. Nododd y Bwrdd y canfyddiadau a chytuno gyda'r dull cyffredinol, grwpiau'r materion, a syniadau cynnar ar gyfer camau gweithredu. Gwnaeth aelodau'r bwrdd ganmol ansawdd y papur a'r gwaith sydd wedi'i wneud hyd yn hyn. Gwnaed rhai sylwadau eithriadol: • Mae angen ystyried pysgodfeydd fel rhan o gysylltedd y gadwyn gyflenwi gan eu bod yn sector cynhyrchu sylfaenol. Pwysigrwydd canolbwyntio ar nodau llesiant sy'n cael eu gyrru trwy'r gadwyn gyflenwi. Pwysigrwydd Enwau Bwyd a Ddiogelir, a sut y gall Brexit effeithio arnynt a bod angen i'r DU ystyried datblygu Enwau Bwyd a Ddiogelir ei hun. Nododd aelodau hefyd bwysigrwydd datblygu a hyrwyddo unigrywiaeth bwyd a gynhyrchir yng Nghymru yn gyffredinol ochr yn ochr â gwerthoedd brand. Nododd y Bwrdd gynigion ar gyfer diffinio'r sector bwyd yn y Dosbarthiad Diwydiannol Safonol a chytunwyd y dylent ddefnyddio'r gweithgareddau a restrir yn Atodiad 3, gan gynnwys y codau Dosbarthiad Diwydiannol Safonol ychwanegol yn Nhabl 2 yr atodiad hwnnw. Nododd y Bwrdd fodelu cynnar o'r hyn y byddai hyn yn ei olygu i werthoedd trosiant y sector. Cytunodd y Bwrdd y dylid mabwysiadu'r rhestr arfaethedig o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol gwyrdd yn Atodiad 4. Byddai aelodau'r bwrdd yn darparu unrhyw sylwadau eraill erbyn 21 Medi ynghylch os dylid defnyddio Dangosyddion Perfformiad Allweddol oren neu goch yn Atodiad 4 yn ogystal. Cytunodd aelodau'r Bwrdd i ddarparu unrhyw sylwadau pellach ar bapur erbyn 21 Medi.

5.	Diweddariadau Ffrwd Gwaith <u>Diweddariad ynghylch Pobl a Sgiliau</u> Diweddarwyd y Bwrdd ynghylch y gwaith am werthoedd, y mae angen nodi cyllid sydd i ddod. Cafodd holl aelodau'r Bwrdd eu hysbysu ynghylch yr addewid a sut i ddatblygu'r straeon newyddion da yn fwy. Nodwyd bod angen gwella'r cyfathrebu rhwng y Cyngor Sgiliau Sector a'r busnesau. Diweddarodd DL y bwrdd ynghylch cynnydd Menter y Cymoedd. Nodwyd bod 94 o bobl newydd o ardal y cymoedd wedi ymuno â'r fenter. Mae Prifysgol Met Caerdydd wedi bod yn datblygu gwybodaeth. Roedd yr Ysgol Haf yn llwyddiant mawr. Ystyriwyd bod y gwaith sy'n cael ei wneud yn y maes hwn ynglŷn â Tuck In yn wych a dylid hyrwyddo'r gwaith ar draws Cymru.
6.	Strwythur y Bwrdd Trafododd y Bwrdd y trefniadau strwythuro a llywodraethu ar gyfer ei gyfansoddiad a chytunwyd bod materion megis noddi'r diwydiant a bod angen adolygu'r cylch gorchwyl. <i>Gwnaed y sylwadau canlynol:</i> Dywedodd NB ei bod wedi ymuno â'r bwrdd fel aelod gyda'r farn y byddai'r bwrdd yn dod yn annibynnol o'r Llywodraeth. Trafododd HT safbwyntiau Ysgrifennydd y Cabinet ac roedd am gael argymhellion cyn y byddai'n gwneud sylw pellach. Ar wahân i hyn mae'n credu bod y Bwrdd yn gweithio'n dda. Mae KP yn teimlo y gallai fod materion sy'n ymwneud ag amseru sy'n berthnasol i Brexit pe byddai'r Bwrdd yn mynd yn annibynnol. Trafodwyd Opsiwn 2 a nodwyd bod y Bwrdd wedi'i osod yn barod i weithio gyda Llywodraeth Cymru. Mae DL yn credu bod gan Lywodraeth Cymru gynllun ehangach na'r bwrdd ac mae'n ddefnyddiol gan fod ganddynt y cysylltiadau hynny. Gan fod y Bwrdd yn fwrdd diwydiannol, mae'n canolbwyntio'n bennaf ar ei feysydd ei hun. Cafwyd trafodaethau ynghylch Clystyrau. Gofynnodd DM gwestiwn ynglŷn ag amserlenni. Mae annibyniaeth y Bwrdd yn broses. Awgrymwyd y dylid cael estyniad blwyddyn cyn gwneud penderfyniad, cytunodd DM y dylid cael adolygiad o'r cylch gorchwyl a dylent wasanaethu'r sector. Awgrymodd JW gydberchnogaeth rhwng y Bwrdd a Llywodraeth Cymru.

	Awgrymodd JF y dylai'r Bwrdd fod yn fwy cynrychioliadol o'r sector. Mae angen mwy o ffocws ar fod yn rhan lawn o'r diwydiant ac annog mwy o aelodaeth clwstwr. Byddai'n well gan MS fod y Bwrdd yn annibynnol o Lywodraeth Cymru. Nodwyd y dylai fod partneriaeth greadigol rhwng Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd, mae clystyrau wedi crybwyll yr hoffent gyfrannu'n ariannol ar gyfer rhai elfennau. Mae'r Bwrdd wedi cytuno na ddylai wneud penderfyniad ar y mater hwn heddiw ac felly dylai'r drefn bresennol gael ei chynnal am y tro.
7.	Cyflwyniad Strategaeth Diodydd Cyflwynodd Mark Grant gwaith o'r clwstwr diodydd i'r Bwrdd ar ddatblygu Strategaeth Diodydd. Y diben oedd ceisio safbwynt y bwrdd ar y strategaeth a gomisiynwyd cyn y cyflwyniad i'r clwstwr diodydd.
8.	‘Brexit a’n Tir’ Nododd y Bwrdd y ffocws ar 'nwyddau cyhoeddus' a 'gwasanaethau amgylcheddol' ond nid oedd yn credu bod ganddo'r cymhwyster i wneud sylw ynghylch materion sy'n ymwneud â manylion, gan fod y rhain y tu allan i arbenigedd y Bwrdd. Fodd bynnag, roedd aelodau o'r farn bod angen dull gweithredu gwbl wahanol ar gyfer amaethyddiaeth, gan fod y Polisi Amaethyddol Cyffredin wedi gweld dyddiau gwell a bod angen i'r diwydiant ganolbwyntio mwy ar fusnes na dibynnu ar gymorthdaliadau. Ystyriwyd bod diffyg ffocws i'r cwestiynau ymgynghori ac nid oedd manylion digonol yn y papur ynghylch yr hyn y byddai'r cynigion yn ei olygu yn nhermau buddsoddi arian parod. Croesawodd y Bwrdd y pwyslais cryf ar wydnwch economaidd. Roedd pryderon ynghylch a fyddai cwmnïau a ffermydd bach yn methu cystadlu ar raddfa fyd-eang a gallai pwysau'r farchnad o ran cael ffermydd mwy o faint a mwy effeithlon arwain at safonau is er mwyn bodloni'r galw am fwyd rhad. Dylai camau gweithredu i wella gwydnwch economaidd fod yn flaenoriaeth a dylai camau gweithredu gynnal a gwella safonau cynhyrchu yn ogystal. Roedd y Bwrdd yn pryderu bod angen cael cydbwysedd priodol rhwng nwyddau cyhoeddus a gwydnwch economaidd. Mae penderfynu ynghylch hynny yn galetach am nad yw effeithiau Brexit yn hysbys eto. Roedd y Bwrdd yn pryderu am nad oedd ymgynghoriadau tebyg wedi'u cyhoeddi ar gyfer y sector pysgota, ar gyfer cymorth i'r sector preifat yn gyffredinol, ac ar gyfer polisi cymdeithasol. Roedd angen i Lywodraeth Cymru gysylltu'r materion hyn er mwyn cael ffocws clir ar ffyniant cenedlaethol a chydlynid cymdeithasol.

9.	Strategaeth Arloesi Cyflwynodd MS i'r bwrdd. Soniwyd am y sgwrs arloesi flaenorol yn ystod y cyfarfod diwethaf unwaith yn rhagor. Cafodd trafodaethau eu cynnal ynghylch yr angen i waith gael ei gwblhau yn y maes hwn sydd hefyd yn gallu cysylltu i mewn i lifoedd gwaith. Trafododd MS yr angen am astudiaethau achos er mwyn tynnu sylw at y budd a geir o fod yn ymarferol a synhwyrol. Tynnwyd sylw'r Bwrdd at y ffaith ei bod yn anodd iawn cael mynediad at y cymorth sydd ei angen fel cwmni sydd newydd ddechrau. Gellir gwella'r llwybr tuag at arloesi a gellir gwneud defnydd gwell ohono. Mae angen cryfhau'r cysylltiadau ag Arloesi Bwyd Cymru ac mae angen eu defnyddio mwy. Dywedodd MS bod angen cymorth arno er mwyn gwybod beth sydd angen ei wneud. <i>Sylwadau'r Bwrdd;</i> Trafododd AR y gynhadledd a'i bod wedi bod yn gadarnhaol iawn. Mae'n glir bod llawer o ansicrwydd ynghylch Brexit.
10.	Diweddariad ynghylch Gweithdy Cynllunio ar gyfer Brexit Diweddarwyd y bwrdd ynghylch y Gweithdai Cynllunio nesaf ar gyfer Brexit fydd yn cael eu cynnal ar 8 a 9 Tachwedd. Cynhelir un yn Wrecsam ac un yn Abertawe. <i>Sylwadau'r Bwrdd;</i> Mae rhai o'r farn bod perygl y bydd pethau yn newid, mae Katie yn credu y dylid danfon gwahoddiad beth bynnag gyda'r cafeat y gallai cael ei ganslo pe byddai'r sefyllfa'n newid. Nid oes cynllun lliniaru gan lawer o fusnesau, felly gallai pecyn cymorth Brexit fod yn ddefnyddiol. Mae cwsmeriaid domestig yn ymholi a yw'r gadwyn cyflenwi yn ddiogel. Mae defnyddwyr yn pryderu ynghylch deddfwriaeth diogelwch bwyd ar ôl Brexit h.y. a fydd gan y DU deddfwriaeth a strwythurau ar waith i sicrhau parhad y safonau diogelwch bwyd cyfredol.
11.	Y Cynllun Cyfathrebu a Diweddariad Brand Y Cynllun Cyfathrebu Cyflwynodd Ro Roberts (RR) y Cynllun Cyfathrebu i'r Bwrdd. Trafodwyd llawer o eitemau y mae RR eisiau i'r Bwrdd eu hystyried. Gall y Bwrdd gysylltu â RR i drosglwyddo manylion ymlaen i'r cyfryngau. Trafodwyd pa aelodau o'r bwrdd sydd wedi derbyn hyfforddiant y cyfryngau.

- Tynnwyd sylw bod angen i bob aelod o'r bwrdd gymryd rhan. Tynnwyd sylw yn ogystal at y ffaith nad yw'r bwrdd yn gwneud sylwadau am bolisiau Llywodraeth Cymru.
- Hoffai RR adeiladu darlun mwy o'r bwrdd, gan wneud y mwyaf o gryfderau pob un o'r aelodau.

Roedd y trafodaethau yn seiliedig ar syniadau a ffyrdd i symud y Cynllun Cyfathrebu yn ei flaen.

Sylwadau'r Bwrdd;

- Mae **EJ** yn cytuno bod dynoli'r bwrdd yn bwysig iawn er mwyn ei wneud yn hawdd mynd ato ar gyfer y diwydiant.
- Tynnodd **KP** sylw'r bwrdd at y gynhadledd llysoau y gallai'r bwrdd fod yn ymwneud â hi gan y byddai'n cyhoeddusrwydd da.

Diweddariad/Gwerthoedd Brand

Trafodwyd nad oedd y cyflwyniad a gafwyd yn wych. Nid oedd ffocws iddo ac nid oedd yn cynnwys llawer o wybodaeth. Nodwyd bod gennym frand eisoes. Mae'r brand wedi'i ategu gan ddeddfwriaeth megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae gwerthoedd y brand yn rhan o gynlluniau generig, mae angen penderfynu a fyddant yn rhan o'r diwydiant neu'r llywodraeth?

Casgliad

Mae gan y gwerthoedd brand daith hir o'u blaenau, bydd materion megis effaith newid hinsawdd ar ffermydd, yr agenda cymdeithasol a'r gymuned, yn cael effaith ar werth brand cynaliadwy.

Mae cynigion wedi'u gwneud ar gyfer cyllid o Gronfa Bontio'r UE gan Lywodraeth Cymru. Diben y gronfa hon yw cefnogi materion sy'n perthyn yn uniongyrchol i Brexit. Y mae estyniad hefyd gyda phrosiect i gynnig am gyllid ychwanegol gwerth £4 miliwn o'r UE ar gyfer rhaglen waith fawr.

Sylwadau'r Bwrdd;

Dywedodd **AR** mai achrediad a gwerthoedd brand yw'r sylfaen, a bod popeth arall ar wahân i hyn yn ychwanegol. Croeso Cymru yw perchennog y brand.

Y dyddiad cau ar gyfer cwblhau'r gwaith ar werthoedd y brand yw y dylid ei gymeradwyo a'i gwblhau erbyn Sioe Frenhinol Cymru 2019. Mae angen cael brand sydd yn gwbl gytbwys.

Cam gweithredu: Awgrymodd **AR** y dylid ail-ymweld â'r gwaith ar werth y brand sydd wedi'i gwblhau gan Nick Miller a bod angen i **DM** drafod Brexit gydag **AR**.

12.

Unrhyw fater arall

Cytunwyd y byddai cyfrif twitter y Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru yn cael ei alw'n '#FDWIB'.

Cytunwyd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal yn Tiny Rebel. Bydd digwyddiad yr hwyr yn cael ei gynnal yno a byddai sesiwn cyfarfod cyflym yn cael ei drefnu o flaen llaw.

Cytunwyd y byddai RR yn mynychu cyfarfodydd y bwrdd yn y dyfodol, tra bod y contract yn parhau.